

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

**91 Dental Care, Yr
Wyddgrug**

Dyddiad arolygu: 9 Ionawr 2017

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ebrill 2

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	10
5.	Y Camau Nesaf.....	11
6.	Methodoleg	12

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o 91 Dental Care yn 91 y Stryd Fawr, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1BQ, ar 9 Ionawr 2017.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd 91 Dental Care yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae 91 Dental Care yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig, ac mae wedi'i leoli yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint. .

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd a thair nyrs ddeintyddol.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod 91 Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi ymroddi i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer cleifion, a dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperid.
- Roedd y staff yn gwrtais, yn ofalgar ac yn gwrando ar gleifion.
- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd.
- Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion.
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi eu cyfarparu'n dda, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda.
- Cedwir cofnodion clinigol rhagorol ar gyfer cleifion.
- Mae safonau uchel o reoli heintiau a phrosesau dadheintio ar waith.
- Mae systemau ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion y rheoliadau ar waith.
- Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roedd rheolaeth ar y gwahanol fersiynau.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Ar y cyfan, canfuom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion. Mae'r deintyddion a'r nyrsys deintyddol wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynnyddoedd lawer, ac maent yn adnabod anghenion eu cleifion yn dda iawn. Gwnaeth yr adborth y gwnaethom ei dderbyn gadarnhau bod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafodd 22 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

'Yn fy marn i mae'r practis hwn yn eithriadol o dda. Mae'r staff yn cymryd yr amser a'r drafferth i wneud imi ymlacio o'r dechrau un, a dw i wedi teimlo'n ddiogel iawn yn eu dwylo nhw. Mae gennyf anawsterau symud ac mae angen amser arna i i ddringo'r grisiau – a dw i byth yn teimlo fel pe bawn yn cael fy rhuthro mewn unrhyw ffordd. Mae [aelod staff] bob amser yn sicrhau fy mod yn barod cyn iddo ddechrau. Mae'r awyrgylch yn dawel ac yn ymlaciedig ac mae'n gysurus iawn. Dw i byth yn teimlo pe bai mai dim ond claf arall ydw i, ond yn hytrach yn bartner yn fy ngofal a'm triniaeth. Dw i wedi argymhell y practis i ddau ffrind – a'r ddau ohonyn nhw hefyd yn hapus iawn gyda'u gofal.'

'Maen nhw'n gyfeillgar ac yn barod eu cymwynas bob amser. Roedd yr holl dîm yn groesawgar ac yn hawdd mynd atynt. Mae pob rhan o'm triniaeth yn cael ei hegluro'n llawn. Dyma'r practis gorau imi ei fynychu o gryn dipyn.'

'Mae gennyf hyder llawn yn 91 Dental Care. Mae'r tîm yn broffesiynol iawn ac mae'r driniaeth dw i wedi'i derbyn wedi bod o'r safon uchaf. Dw i wedi cael fy atgyfeirio i arbenigwyr gan 91 Dental Care ar gyfer triniaethau deintyddol a thriniaeth ar y deintgig manylach, a dw i bob amser yn teimlo'n hyderus bod y gofal a'r driniaeth dw i'n eu derbyn yn 91 Dental Care heb eu hail. Maen nhw'n haeddu cael eu cydnabod yn llawn am eu safonau proffesiynol.'

'Mae 91 Dental Care yn haeddu clod penodol am y ffordd maen nhw'n ymdrin â chleifion pryderus mewn modd sensitif. Mae'r awyrgylch yn dawel ac yn ddi-frys ond dw i'n cael fy ngweld yn brydlon bob amser. Mae [aelod staff] ac [aelod staff] yn gwrando ar fy mhryderon a'm problemau bob amser. Ni wneir imi deimlo embaras oherwydd y pryderon hynny. Nid ydynt yn broblem i'r practis ac maen nhw'n gweithio

gyda fi ar fy nghyflymder i er mwyn cwblhau'r gwaith. O ganlyniad i'r dull hwn o weithredu, nid yw'r rhan fwyaf o'r pryderon hyn yn bryderon mwyach!

Gofal gydag urddas

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso mawr gan y staff. Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser. O'r 22 holiadur a gwblhawyd, dim ond un claf a oedd wedi profi unrhyw oediadau byr erioed. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cefnogi o ran sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y dderbynfa a'r man aros.

Gofal unigol

Roedd ymatebion o holiaduron cleifion yn dangos bod yr holl gleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol, a'u bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael croeso mawr bob amser. Roedd yr holiaduron yn ei gwneud yn amlwg bod staff yn cymryd amser i wrando ar gleifion bob amser, ac yn rhoi cyngor iddynt ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd ganddynt.

Roedd y practis yn arddangos enw a chymwysterau'r deintyddion, ynghyd â'i amseroedd agor a manylion y gwasanaeth y tu allan i oriau.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion ac un toiled deuryw at ddefnydd staff – a'r ddau ohonynt yn lân iawn ac arwyddion clir yn dangos lle roeddent. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried newid un bin yn y toiled i staff â bin a weithredir â throed. Cadarnhaodd y practis ei fod wedi gwneud hyn yn syth ar ôl ein hymweliad.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ar waith a oedd wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa ac yn y man aros. Roedd y weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn hefyd yn cael ei chynnwys yn nhaflen wybodaeth y practis ac mae hefyd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y practis. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion.

Gwnaethom drafod mecanwaith y practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion mewn modd gweithredol. Mae'r practis yn gwneud hyn yn flynyddol trwy ddsbarthu holiaduron i'w gleifion. Gwelsom ganlyniadau arolwg 2016, a oedd yn gadarnhaol iawn, a gwelsom hefyd dystiolaeth bod y practis wedi gweithredu ar adborth a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau yn y practis.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Canfuom dystiolaeth o wasanaeth deintyddol a oedd yn cael ei reoli'n dda, lle mae ymrwymiad cryf i ddarparu triniaeth o ansawdd uchel. Mae safonau uchel o arferion rheoli heintiau a dadheintio ar waith ac mae'r rhain yn helpu i sicrhau gofal diogel i gleifion.

Gofal diogel

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafell driniaeth yn olau ac yn awyrog.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafell driniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân iawn ac mewn cyflwr rhagorol, a'i bod wedi'i dylunio i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwnaeth y trefniadau a welsom gadarnhau ei fod yn cael ei weithredu'n ddiogel ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Roedd y deintyddion a'r nyrsys deintyddol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar amddiffyniad radiolegol.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal mewn modd priodol ac ar adegau rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy gydol yr adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir. Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un ohonynt wedi ei adael mewn manau cyhoeddus.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu cadw'n ddiogel, ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympto) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadhalogi) offer deintyddol, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd

Cymru 01-05, a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn.

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi cael ei wahanu rhwng y bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Roedd polisi ar waith ar gyfer diogelu oedolion ac amddiffyn plant fel ei gilydd. Roedd staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant cyfredol yn y ddau faes.

Roedd pob aelod o staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn dadebru cardio-pwlmonaidd ac roedd un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau neu eu trefnu gan y practis.

Roedd tystiolaeth bod y practis ar y cyfan yn cadw cofnodion clinigol ardderchog, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o 15 o gofnodion cleifion a chanfod bod eitemau a oedd yn ymwneud â gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau, manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a, lle bo'n ofynnol, cynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion. Roedd y deintyddion yn cofnodi bod sgrinio am ganser yn cael ei gynnal ac y rhoddid cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion. Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Canfuom dîm staff hapus a chydlynol a oedd wedi gweithio gyda'i gilydd ers nifer o flynyddoedd ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth cyfeillgar, uchel ei ansawdd ar gyfer eu cleifion.

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Roedd pob aelod o staff wedi cael mynediad at bolisiau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod staff wedi cael mynediad at amrediad eang o hyfforddiant a oedd yn bodloni gofynion datblygu proffesiynol, a gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm misol ac arfarniadau staff blynyddol.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac roeddent wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion wedi'u harddangos yn glir. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, ac fe welsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Gwelsom gofnodion cynhwysfawr ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B yr aelodau staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y practis, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u haddasu i fodloni anghenion y practis.

5. Y Camau Nesaf

Nid oes angen i'r practis gwblhau cynllun gwella o ganlyniad i'r arolygiad hwn. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008¹ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.² Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhrefnwybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, o fewn atodiad yn yr adroddiad arolygu.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad